**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Mannau Gwyrdd Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Mercher, Tachwedd 19eg, 2025, am 6.30 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Mrs A. J. Evans | R. Barnes | N. C. Davies |
| | J.W. Tandy | A. Thomas | H. Davies |

**Yn mynychu arlein:** Neb

**Ymddiheuriadau am absenoldeb :** G. J Davies a L. Wilkins,

**Absennol** S. Roberts a P. H. Roberts

**829.**

**Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb.**

Roedd L. Wilkins a G. J. Davies wedi hysbysu'r Clerc nad oeddent ar gael i fynychu'r cyfarfod.

**Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

**830.**

**Diweddariad y Clerc ynghylch Prosiect Banc Y Draenen.**

Roedd y Clerc wedi rhoi'r diweddariad canlynol:

- Mae'r ardal wyneb caled wedi'i drafod gyda Chyngor Sir Caeryrddin ac mae 'na ardal lle nad oes digon o bridd i orchuddio'r sail o goncrit mâl. Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi bod ar ôl Matthew Collinson o'r Sir i unioni hyn, a chafodd y contractwr ei gomisiynu i wneud y gwaith adfer yn ystod Rhagfyr 2025.

- Fel yr adroddwyd mewn cyfarfodydd blaenorol, roedd y Clerc wedi cadarnhau bod y gwaith yn ardal y warchodfa natur wedi'i brisio gan yr ymgynghorwyr, ac yn aros am yr arian grant Adran 106. Roedd y gost tua £5,000, gyda chost blynyddol o £1,000 dros 25 mlynedd i'w osod yng ngofal Cyngor Sir Caerfyrddin, ac i'w ryddhau yn flynyddol i dalu am waith cynnal a chadw yn yr ardal, i dorri'r glaswellt a thacluso.

Cadeirydd

**Diweddariad:** Roedd hyn nawr wedi'i atal ar ôl i'r Clerc dderbyn ebost yn dweud bod hyn yn fater cynllunio, a bod her wedi'i gyflwyno yn erbyn y penderfyniad cynllunio. Byddai'n sicrhau bod y cynghorwyr yn derbyn diweddariad yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Cytunwyd gosod y pwyntiau uchod fel diweddariad gerbron y Cyfarfod Cyffredin ar Dachwedd 26ain, 2025, a bydd y Clerc yn diweddaru'r cyfarfod hwnnw ynghylch unrhyw gynnydd.

**831.**

**Diweddariad ynghylch y datrysiad gwresogi gwyrdd ar gyfer Pafiliwn Tenis a Bowlio Llandybïe.**

Roedd y Clerc wedi diweddaru'r cynghorwyr ei fod, erbyn hyn, wedi ail-ystyried y prosiect, wedi iddo ddeall nad yw'r grantiau bellach ar gael, oherwydd nad oedd y Cyngor Sir wedi ryddhau'r grant disgwyledig. Ar ôl ymchwilio, roedd wedi ystyried datrysiad amgen, sef gosod gwresogyddion trydan ffynhonnell aer ar y nenfwd ac ar y waliau yn y brif ystafell gyfarfod, a gwresogyddion trydan ffynhonnell aer llai o faint yn yr ystafell storio fechan a'r ystafell gawod, a gosod rhagor o wresogyddion trydan ffynhonnell aer yn yr ystafelloedd eraill.

Byddai system paneli haul yn cael ei gosod ar y to, gyda batri i storio'r trydan. Byddai hwn yn allforio trydan i'r grid cenedlaethol, tra'n storio trydan at ein defnydd ni, er mwyn lleihau ein costau trydan ar gyfer yr adeilad a'r llif-oleuadau.

Byddai'r paneli haul hefyd yn cyflenwi boeler dŵr twym a fyddai'n gwasanaethu'r toiledau a'r gegin mewn modd tipyn rhatach.

Pan yn cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn gynharach yn y mis, roedd y Clerc wedi egluro ei fwriad o rannu'r prosiect yn ddau, gan drin y prosiect mewnol fel un rhan, a'r prosiect ynni haul fel ail ran; byddai hyn yn osgoi gormod o darfu a sicrhau bod y prosiect wedi'i ymestyn dros gyfnod rheoliadwy.

Eglurodd y Clerc y byddai, yn ystod y deuddydd nesaf, yn cwrdd â chontractwr arbenigol ar y safle er mwyn llunio manyleb prosiect, a fydd yn ei alluogi i osod yn ei le llythyr swyddogol i wahodd dyfynbrisiau oddiwrth o leiaf tri chontractwr, yn unol â'n Rheolau Sefydlog.

Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylai'r Clerc gyfeirio at drydedd elfen y prosiect, sef ail-addurno'r pafiliwn unwaith bod y gwaith gwresogi wedi'i gwblhau, a dylai'r waliau gael eu hail-baentio, carped newydd gael ei osod ynghyd â goleuadau nenfwd ynni-effeithlon. Roedd y Cyng N. C. Davies o'r farn bod y nenfwd Artex yn hen ffasiwn iawn, a dylai hwnnw hefyd gael ei ail-blastro. Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod y gwaith o baentio'r waliau wedi'i gynnwys yn y gyllideb cynnal a chadw gyffredin, a'i fod yn bwriadau gosod cloeon newydd ar y drws ffrynt, ynghyd â phrisio System Larwm.

Roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi mynegi eu barn y dylai'r system wresogi trydan fewnol gael ei gosod yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a chyn

Cadeirydd

dechrau tymor Blwyddyn Dathlu Canmlwyddiant y Clwb Bowlio. Roedd y Clerc wedi atgoffa'r aelodau a oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref, bod y pwyllgor wedi cytuno gosod y gwariant prosiect yn y flwyddyn ariannol 2026/27, wedi iddo gyflwyno'r adolygiad 6-misol gofynnol o gyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol.

Roedd y Cadeirydd wedi ymyrryd, gan ddweud bod y Clerc, yn ystod cyfarfod safle blaenorol a gynhaliwyd i drafod y prosiect, wedi sôn y byddai modd cwblhau'r prosiect mewnol cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Roedd y Clerc wedi cadarnhau y byddai hyn yn bosibl, ond y byddai'n rhaid cael o leiaf pris ar gyfer y ddwy elfen brosiect, a nawr y drydedd elfen, sef carped newydd a goleudau yn ei le, a bod angen amseru'r rhain fel cynnig a'u cyflwyno gerbron y Cyngor Llawn, ac yn fwy na thebyg, y Pwyllgor Cyllid, gan y byddai'n golygu tynnu arian o'r gronfa wrth gefn.

Roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd o'r farn taw dyma oedd yr opsiwn gorau gan y byddai modd, o leiaf, dechrau'r prosiect cyn tymor Canmlwyddiant y Clwb Bowlio, ond roedd y Cadeirydd o'r farn bod angen cytuno i'r cynnig yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf er mwyn gweithredu'r prosiect yn raddol, gan na fyddai digon o amser i fynd â'r mater gerbron y Pwyllgor Cyllid.

Roedd y Clerc am iddo gael ei nodi bod rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sefydlog a'i fod yn atebol, yn flynyddol, i Swyddfa Archwilio Cymru, ac argymhellodd bod y mater yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf a gynhelir ar Dachwedd 26ain, er mwyn caniatau i'r cynnig i ddechrau'r prosiect yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhellwyd** bod y Clerc, yn y lle cyntaf, yn cwrdd ag ymgynghorwyr i archwilio'r dull gweithredu'n raddol, a cheisio caffael pris cyn y Cyfarfod Cyffredin nesaf, gan ofyn bod cynnig graddol yn cael ei ddilysu.

**832.**

**Diweddariad ynghylch y prosiect batri ar gyfer Cloc y Chwarel.**

Roedd y Clerc wedi hysbysu'r aelodau bod cyfnod profi tair-wythnos o'r datrysiad ynni batri wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda'r cloc yn cadw amser yn berffaith. Roedd wedi derbyn dyfynbris gan fusnes lleol a oedd am dderbyn ond y pris 'cost' am y batri a'r gwefrydd. Roedd dau opsiwn – naill batri 100 folt neu fatri 300 folt, ac roedd modd prynu dau fatri, sef un i'w amnewid yn fisol tra bod yr ail yn cael ei wefru.

Pris yr opsiwn 300 folt yw £1,732 gan gynnwys TAW, a'r opsiwn 100 folt, £884 gan gynnwys TAW.

Roedd y Clerc hefyd wedi ychwanegu bod Smiths of Derby wedi ymweld yn gynharach yn y dydd i gynnal a chadw'r cloc yn flynyddol, ac wedi dweud eu bod o'r farn bod hyn y ddatrysiad da.

____________________

Cadeirydd

**Argymhellwyd** derbyn yr opsiwn i brynu'r batri 100 folt, a bod hyn yn cael ei ddodi gerbron y Cyfarfod Cyffredin ar Dachwedd 26$^{ain}$, 2025, i'w ddilysu.

**833.**

**Trafodaeth ynghylch y polisi tocio'r cloddiau a chlirio tir ar briffyrdd a thir preifat.**

Dywedodd y Clerc bod ceisiadau wedi'u derbyn o amrywiol leoliadau, a bod y ceisiadau hyn ar gyfer tir ac asedau nad oeddent ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned. Roedd hi'n anodd iddo, fel SCC, gyfiawnhau gwario arian, ond mewn achos diweddar ym Monllwyn roedd ar y Cyngor Sir ddyletswydd, ar sail priffyrdd ac iechyd cyhoeddus, i orfodi'r tirfeddianwr i weithredu i drwsio clawdd a pharsel o dir oedd wedi gordyfu.
Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi cysylltu â'r Cyngor Sir fel eu bod yn gallu mynd i'r afael â'r mater.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn diweddaru cyfarfodydd y dyfodol ynghylch unrhyw gynnydd yn y mater.

**834.**

**Trafodaeth ynghylch mabwysiadu llain o dir ym Mhenygroes.**

Dywedod y Cadeirydd ei fod wedi trafod gyda'r Clerc mabwysiadu neu drosglwyddo ased i'r Cyngor Cymuned, sef darn bychan o dir ochr y ffordd. Byddai hyn yn gyfle i blannu coed a gosod mainc ar gyfer preswylwyr, a chreu adnodd ychwanegol ym mhentref Penygroes.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod yn aros am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir, i ddeall os oedd y cynllun yn bosibl, ac os oedd modd cynnal trafodaeth bellach.

Roedd y Cynghorwyr R. Barnes a N. C. Davies wedi cwestiynu'r angen am asedau pellach o'r math, a'r gost ychwanegol o gynnal a chadw'r tir. Roedd y Cadeirydd o'r farn y byddai modd cynnwys hyn yn yr amserlen flynyddol cynnal a chadw'r tiroedd.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn diweddaru'r cyfarfod priodol nesaf unwaith ei fod wedi derbyn ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

**835.**

**Diweddariad ynghylch Gwifrau Sip ym Mharciau Saron, Penygroes a Blaenau.**

Roedd y Clerc wedi diweddaru'r aelodau, gan ddweud bod Gwifren Sip a Rowndabowt Parc Saron wedi'u cynnwys yng nghyllideb eleni, a bod y gawith i fod i ddechrau yn Ionawr 2026, ac yn cymryd tua 10 diwrnod i'w gwblhau.

Cadeirydd

Mae'r Gwifrau Sip ym Mhenygroes a Blaenau i'w gosod yn eu lle ym mis Mawrth 2026, a byddant yn cael eu hanfonebu yn y Flwyddyn Ariannol nesaf.

**836.**

**Diweddariad ynghylch y gatiau diogelwch ym Mharc Penygroes.**

Roedd y Clerc wedi diweddaru'r pwyllgor gan ddweud bod y gatiau wedi'u cynhyrchu, a byddant yn cael eu gosod yn eu lle yn ystod y pythefnos nesaf.

**837.**

**Storio ffeiliau'r Cyngor yn ddigidol.**

Mae'r ffeiliau wedi'u casglu at ei gilydd a disgwylir y byddant yn cael eu digideiddio o fewn y pythefnos nesaf. Hefyd, bydd cofnodion ffurfiol o'r holl gyfarfodydd yn cael eu cadw ar ffurf copïau caled ac yn cael eu rhwymo, fel sydd wedi digwydd ar hyd oes y cyngor.

**838.**

**Trafodaeth ynghylch ynni haul ar gyfer y toiledau, goleuadau synhwyrydd symudiad a Theledu Cylch Cyfyng solar.**

Eglurodd y Clerc ei fod yn y broses o brisio paneli haul a synwyryddion goleuadau ar gyfer y toiledau ac ambell ardal sy'n dywyll gyda'r nos yn ein parciau, er mwyn gwella diogelwch ac arbed ynni. Roedd yn bwriadu cwrdd â chontractwr trydanol yn ystod yr wythnos sydd i ddod.

Roedd hefyd wedi dweud wrth yr aelodau ei fod wedi prisio System Teledu Cylch Cyfyng Solar ym Mharc Llandybïe er mwyn rhwystro fandaliaeth am bris o tua £1,700 a TAW. Gan nad oedd fandaliaeth mor gostus â hynny, efallai y byddai modd ystyried hyn ar gyfer cyllideb yn y dyfodol, yn 2027-28.

**Cytunwyd** y byddai modd trafod y mater mewn cyfarfodydd y Pwyllgor Mannau Gwyrdd yn y dyfodol.

**839.**

**Diweddariad ynghylch plannu coed a chydweithio gyda Morgan Marine.**

Eglurodd y Clerc ei fod wedi adnabod mannau plannu 57 o goed, megis coed ffrwythau bychan yn 6 Pharc lleol, a'i fod yn y broses o drefnu ymweld â'r parciau hynny yng ngwmni Morgan Marine er mwyn cytuno ar ddiwrnod plannu. Bydd y Clerc yn gofyn am gwmni wirfoddolwyr, ac mae Morgan Marine eisoes wedi addo aelodau staff i ymgymryd â'r gwaith.

Cadeirydd

**Cytunwyd** bod y Clerc yn diweddaru'r cyfarfod priodol nesaf i adrodd yn ôl ynghylch cynnydd.

**840.**

**Cylchlythyr a Storïau Mannau Gwyrdd.**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod y cylchlythyr chwarterol i'w ryddhau yr wythnos nesaf, a gofynnodd bod aelodau'r pwyllgor yn ei fwydo gyda storïau rhagweithiol os oedd ganddynt unrhyw gyfraniad addas i'w ychwanegu.

**841.**

**Hyfforddiant Net Sero**

Roedd y Cadeirydd wedi tynnu sylw'r aelodau at yr Hyfforddiant Net Sero di-dâl sydd ar gael, a gofynnodd bod y Clerc yn dosbarthu'r ebost i'r aelodau.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf.**

**842.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.30 yh.

________________________

Cadeirydd